12 Mawrth 2026

Annwyl

**ATISN 26712 – Ffeiliau wedi'u dileu**

**Y cais**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 13 Chwefror 2026. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- enwau'r pum ffeil y cyfeiriwyd atynt yn yr ymateb hwnnw, sydd wedi cael eu dileu
- dyddiadau dileu'r ffeiliau hyn
- y rhesymau a roddwyd am eu dileu (gyda chopi o'r polisi gwaredu y pwyswyd arno i wneud hyn)
- yn olaf, yn fras, a yw o leiaf peth o'r gweddill o'r ohebiaeth wedi cael ei gadw y dywedasoch y darganfuwyd ei fod yn bodoli yn eich ymateb cychwynnol i mi ym mis Rhagfyr 2025 (ATISN 26737)?

**Ein hymateb**

Mewn ymateb i bwyntiau bwled 1,2 a 3 yn eich cais, amgaeaf ddogfen ynghyd â chopi o bolisi gwaredu Llywodraeth Cymru a oedd mewn grym ar y pryd.

Mewn ymateb i bwynt bwled 4 yn eich cais, rwy'n amcangyfrif y byddai'n costio mwy na'r terfyn addas a nodwyd yn y Rheoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004 i ateb eich cais. Y terfyn addas a bennwyd ar gyfer y llywodraeth ganolog yw £600. Dyma amcangyfrif o'r hyn y byddai'n ei gostio os yw'n debygol o gymryd mwy na 24 awr i bennu a oes gennym yr wybodaeth, dod o hyd i'r wybodaeth, ei hadalw a thynnu'r rhannau perthnasol ohoni.

Mewn chwiliad electronig rhagarweiniol o system fewnol Llywodraeth Cymru am yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch meini prawf cyn mis Mawrth 2013, canfuwyd tua 500 o ganlyniadau, ac ni fydd rhai ohonynt yn berthnasol i'ch cais, os o gwbl. Mae'n ymddangos bod llawer o'r rhain yn dal i fodoli.

Gan amcangyfrif y byddai'n cymryd 5 munud i ymchwilio i bob dogfen i benderfynu a yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol i'ch cais, ac yna i gasglu'r wybodaeth honno, byddai'n cymryd dros 41 awr. O ganlyniad, rwyf wedi penderfynu peidio â darparu'r wybodaeth i chi.

Efallai yr hoffech gyfyngu eich cais drwy ofyn am yr wybodaeth benodol rydych chi'n chwilio amdani neu ganolbwyntio ar y cwestiwn rydych chi am ei ateb, yn hytrach na gofyn am bob gohebiaeth gan obeithio ei fod yn cynnwys yr hyn rydych chi'n chwilio amdano.

Os byddwch yn dewis mireinio eich cais fel hyn, bydd yn cael eu drin fel cais newydd.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir